

SEICOLEG

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i Fyfyrrwyr:

ADRAN A (40%): Rhaid i chi ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn

ADRAN B (60%): Rhaid i chi ateb UN (1) cwestiwn o ddewis o chwech

ADRAN A (40%)

Darllenwch y braslun ymchwil canlynol, ac ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn isod.

Mae ymchwilydd eisiau canfod a yw'n well gan fyfyrwyr ddysgu am seicoleg gymdeithasol trwy gyfuniad o ddarlithoedd a seminarau, neu trwy gyfrwng cwrs ar-lein. I wneud hyn, mae'r ymchwilydd yn rhoi holiadur i 1000 o fyfyrwyr ar eu blwyddyn gyntaf mewn prifysgol, sydd newydd ddechrau ar eu cyrsiau gradd, i ofyn beth fyddai'n well ganddynt.

1. Nodwch unrhyw broblemau ynglŷn â'r dull crynhoi data a ddefnyddir yma.
2. Sut y gellid gwella'r cynllun?
3. Nodwch agwedd gadarnhaol ar y cynllun a ddefnyddiwyd.
4. Beth yw'r ystyriaethau moesegol sy'n gysylltiedig?

ADRAN B (60%)

Atebwch UN (1) cwestiwn o blith y dewis o chwech isod.

1. Mae gwahanol bobl yn cael eu denu at lwybrau gyrfa gwahanol. Trafodwch pam tybed fod hyn yn digwydd, gan ddefnyddio cymaint â phosibl o'ch gwybodaeth ynglŷn â gwahaniaethau unigol a statws gymdeithasol-economaidd, a allai gynnwys testunau cyfoes ar seicoleg esblygiadol.
2. Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da gwrando ar gerddoriaeth wrth adolygu ar gyfer arholiadau? Mae angen ichi gyfiawnhau eich ateb trwy drafod y cof a materion eraill yn gysylltiedig â seicoleg.
3. Pam yn eich barn chi y mae gan y cyfryngau ddylanwad lled gryf ar gredoau a syniadau pobl?
4. Wrth wneud ymchwil sy'n cynnwys unrhyw elfen o gyfranogi gan bobl, rhaid rhoi sylw i ystyriaethau moesegol sylfaenol. Beth yw'r rhain a sut y gellir eu gweithredu?
5. Yn y gymdeithas sydd ohoni pam y gallai fod yn ddefnyddiol i astudio seicoleg?
6. Os ydym ni'n gwybod bod ymarfer corff yn rheolaidd a bwyta diet cytbwys yn cyfrannu at safonau byw da, pam y mae cynifer ohonom yn anwybyddu'r wybodaeth, gan wneud prin ddim ymarfer corff yn rheolaidd a thalu fawr ddim sylw i'r hyn a fwytawn? Ym mha ffyrdd y gall sefydliadau cyhoeddus, er enghraifft ysgolion, ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad pobl yn hyn o beth?